## Protocol ar gyfer cael gafael ar adroddiadau meddygol oedolion (adroddiad IO) ar gyfer ymgeiswyr i fod yn ddarpar fabwysiadwyr yn ystod pandemig Covid-19

Mae Rheoliad 26 (b) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi, wrth gyflawni proses cyn-asesu Cam 1, bod yn rhaid i asiantaeth fabwysiadu 'gael adroddiad ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig ynglŷn ag iechyd y darpar fabwysiadwr yn dilyn archwiliad llawn...'.

Yn dilyn cyngor gan grŵp iechyd CoramBAAF, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno am gyfnod pandemig Covid-19, os yw meddyg teulu yn gallu cwblhau adroddiad Iechyd Oedolion (IO) gan ddefnyddio ymgynghoriad fideo o ansawdd, gan ddefnyddio Rhan C (7) ychwanegol y ffurflen IO fel opsiwn i arwain y drafodaeth hon lle bo angen, bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y rheoliad.

Mae archwiliad wyneb yn wyneb ac archwiliad o bell, felly, yn cydymffurfio â rheoliad 26 (b).

**Ffurflen Iechyd Oedolion (IO)** CoramBAAF

Lle bo'n bosibl, argymhellir bod y ffurflen IO yn cael ei chwblhau yn y ffordd arferol [https://corambaaf.org.uk/coronavirus/health].

Er eglurder cwblheir Rhan A gan yr Asiantaeth Fabwysiadu; mae Rhan B yn cael ei chwblhau gan yr ymgeisydd mabwysiadol (hunan ddatganiad); mae Rhan C yn cael ei chwblhau gan feddyg teulu'r ymgeisydd o gofnodion ac archwiliad corfforol; mae Rhan D yn cael ei llenwi gan ymgynghorydd meddygol yr Asiantaeth.

Mae'r wybodaeth a geir o gofnodion meddyg teulu ymgeisydd yn elfen bwysig o'r asesiad Iechyd Oedolion. Mae'r meddyg teulu yn cynnal archwiliad corfforol ac mae hefyd yn cofnodi cyflyrau meddygol, materion iechyd cyfredol a ffactorau ffordd o fyw. Os yw'r ymgeisydd wedi mynychu apwyntiad iechyd ac wedi cael ei archwilio'n gorfforol yn y flwyddyn flaenorol, bydd y meddyg teulu yn gallu gweld y wybodaeth hon a gallai ei defnyddio.

**Ffurflen IO CoramBAAF gydag ymgynghoriad fideo meddyg teulu**

Os na ellir dilyn y broses arferol uchod, anogir meddygon teulu i gynnal adolygiad o'r cofnod ac ymgynghoriad fideo, gan gynnwys cymryd hanes a sgwrsio ar-lein, i gwblhau'r asesiad iechyd heb yr ymgynghori wyneb yn wyneb arferol.

Mae hefyd yn ofynnol i'r meddyg teulu gael gwiriad pwysedd gwaed a chanlyniad urinalysis, ac iddynt ofyn i'r ymgeisydd gyflenwi mesuriadau ar gyfer cyfrifiad Mynegai màs y corff (BMI). Bydd y meddyg teulu yn gwneud trefniadau ar gyfer y rhain gyda'r ymgeisydd.

Ni fyddai'r adran ar archwiliad corfforol (Rhan C, adran 7) yn y ffurflen IO yn cael ei chwblhau yn y ffordd arferol, ond mae gan feddygon teulu brofiad o ofyn cwestiynau priodol a chofnodi hanes meddygol. Pe bai meddyg teulu yn nodi rheswm clinigol dros wneud archwiliad corfforol pellach yn ystod ymgynghoriad fideo, byddent wedyn yn trefnu hyn.

Bellach mae adran ychwanegol ar y ffurflen safonol IO gyda chwestiynau amgen sy'n disodli rhan wyneb yn wyneb yr archwiliad corfforol. Mae'r rhain yn helpu i ganfod symptomau neu arwyddion o gyflyrau heb eu diagnosio yn y ffordd y mae archwiliad corfforol yn ceisio gwneud. Mae hyn yn cael ei gynnwys fel opsiwn i gynorthwyo meddygon teulu i gasglu'r wybodaeth

berthnasol os oes angen. Mae ffurflen Adran (Rhan C (7)) wedi'i hatodi neu gellir cael gafael arni drwy *https://corambaaf.org.uk/coronavirus/health*. Bydd angen i'r meddyg teulu lenwi adrannau Rhan C 1-6, 8-11 yn y ffordd arferol.

Ni ellir disgrifio adolygiad cofnod meddyg teulu yn unig fel archwiliad llawn. Mae CoramBAAF wedi ymgynghori â'i grŵp iechyd arbenigol ac mae wedi cytuno, os gall meddyg teulu gwblhau adroddiad Iechyd Oedolion gan ddefnyddio ymgynghoriad fideo o ansawdd fel y disgrifiwyd uchod, y bydd hyn yn darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y Rheoliadau.

**Cyfeirio ymgeisydd at y meddyg teulu**

Mae llythyr safonol diwygiedig ar gyfer meddygon teulu wedi'i ddatblygu i'w ddefnyddio ledled Cymru. Dylai asiantaethau ddefnyddio'r llythyr diweddaraf at y meddyg teulu sy'n ei wneud yn ymwybodol o'r opsiwn i gwblhau ymgynghoriad rhithwir yn hytrach nag archwiliad corfforol wyneb yn wyneb.

Lle mae asiantaethau'n ymwybodol o geisiadau parhaus gyda phrofion meddygol heb eu cynnal, fe'ch cynghorir i ailanfon y cais gan ddefnyddio'r llythyr newydd ac amgau'r ffurflen Iechyd Oedolion (IO) ddiweddaraf a'r Adran ychwanegol (Rhan C (7)).

**Rôl Ymgynghorydd Meddygol**

O dan amgylchiadau arferol, bydd yr Ymgynghorydd Meddygol yn cwblhau rhan D o'r Ffurflen IO ac yn cyflwyno adroddiad cryno ac yn rhoi cyngor i'r panel mabwysiadu a'r asiantaeth fabwysiadu.

Mae'n arbennig o bwysig yn y sefyllfa bandemig bresennol bod yr Ymgynghorydd Meddygol yn esbonio sut gafwyd y wybodaeth am iechyd ac a oes gwybodaeth bwysig ar goll. Gall yr Ymgynghorydd Meddygol fynegi ei farn am ddigonolrwydd y wybodaeth sydd ar gael, a rhoi cyngor ar unrhyw wybodaeth bellach sydd ei hangen. Gall y meddyg teulu hefyd gysylltu â'r Ymgynghorydd Meddygol os oes ganddo unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch cwblhau'r prawf meddygol yn y modd hwn.

**Dylech fod yn ymwybodol na ddylid defnyddio fersiwn flaenorol "Ffurflen Hunan-ddatganiad Iechyd i'w defnyddio yn ystod pandemig Covid-19" CoramBAAF a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020 bellach ar gyfer ymgeiswyr mabwysiadol yng Nghymru gan nad yw'n gydnaws â Rheoliadau Cymru. Bydd y broses newydd a amlinellir yn y protocol hwn yn disodli hyn beth bynnag.**